Statws *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2004 Rhif 2920 (Cy.259)

Y DRETH GYNGOR, CYMRU

Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Atebolrwydd Perchenogion) (Diwygio) (Cymru) 2004

Wedi'u gwneud	- -	*9 Tachwedd 2004*
Yn dod i rym	- -	*1 Ebrill 2005*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adrannau 8(1) a 113(1) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992(**1**) drwy hyn yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Atebolrwydd Perchenogion) (Diwygio) (Cymru) 2004 a deuant i rym ar 1 Ebrill 2005.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i Gymru yn unig.

Cartrefi gofal preswyl

2. Yn rheoliad 2 o Reoliadau'r Dreth Gyngor (Atebolrwydd Perchenogion) 1992(**2**), yn lle Dosbarth A rhodder—

"**Class A**

(a) a care home within the meaning of the Care Standards Act 2000(**3**), in respect of which a person is registered in accordance with Part 2 of that Act;

(b) a building or part of a building in which residential accommodation is provided under section 21 of the National Assistance Act 1948(**4**)); or

(c) a hostel within the meaning given by paragraph 7 of Schedule 1(**5**) to the Act.".

(**1**) 1992 p.14. Trosglwyddwyd y pwerau hyn, mewn perthynas â Chymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru drwy Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672); *gweler* y cyfeiriad at Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 yn Atodlen 1.

(**2**) S.I. 1992/551.

(**3**) 2000 p.14.

(**4**) 1948 p.29.

(**5**) Diwygiwyd paragraff 7 o Atodlen 1 gan Ddeddf Safonau Gofal 2000, *gweler* adran 116 a pharagraff 20 Atodlen 4 o'r Ddeddf honno. I weld y diffiniad o "hostel" *gweler* erthygl 6 o Orchymyn y Dreth Gyngor (Diystyru Gostyngiadau) 1992 (O.S. 1992/548) fel ag y'i hamnewidiwyd gan erthygl 4 o Orchymyn y Dreth Gyngor (Anheddau Taliadwy, Anheddau Esempt a Diystyru Gostyngiadau) (Diwygio) (Cymru) 2004 (O.S. 2004/2921 (Cy. 260)).

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn unol ag adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**6**).

D. Elis-Thomas

9 Tachwedd 2004 Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

(**6**) 1998 p.38.

EXPLANATORY NOTE

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Caiff y Rheoliadau hyn eu gwneud o dan adrannau 8(1) a 113(1) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 ("Deddf 1992") ac maent yn diwygio Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Atebolrwydd Perchenogion) 1992 ("Rheoliadau 1992").

Mae Rheoliadau 1992 yn rhagnodi'r dosbarthau ar o anheddau y mae'r perchennog ac nid y meddiannydd yn atebol am dalu'r dreth gyngor mewn perthynas â hwy. Darparodd Dosbarth A yn rheoliad 2 o'r Rheoliadau hynny mai'r perchennog fyddai'n atebol am dalu'r dreth gyngor ar gyfer cartref gofal preswyl, cartref nyrsio, cartref nyrsio meddyliol neu hostel o fewn ystyron "residential care home, nursing home, mental nursing home" a "hostel", yn eu trefn, a roddwyd gan baragraph 7 o Atodlen 1 i Ddeddf 1992.

Diwygiwyd paragraff 7 o Atodlen 1 i Ddeddf 1992 gan Ddeddf Safonau Gofal 2000 ("Deddf 2000"), drwy roi cyfeiriadau at "care home" ac "independent hospital" yn lle'r termau blaenorol "residential care home", "nursing home" a "mental nursing home". Mae erthygl 2 o'r Rheoliadau hyn yn rhoi Dosbarth A newydd yn Rheoliadau 1992 yn lle'r Dosbarth A presennol. Mae'r Dosbarth A newydd yn cyfeirio at gartrefi gofal o fewn yr ystyr sydd i "care home" yn Neddf 2000, y mae person wedi ei gofrestru mewn perthynas ag ef yn unol â Rhan 2 o'r Ddeddf honno, at adeiladau neu rannau o adeiladau lle y darperir llety preswyl o dan adran 21 o Ddeddf Cymorth Gwladol 1948, ac at hostelau o fewn yr ystyr sydd iddynt ym mharagraff 7 o Atodlen 1 i Ddeddf 1992.

Ar gyfer cartref gofal o fewn yr ystyr sydd i "care home" yn Neddf 2000, pan fydd person wedi cofrestru mewn perthynas â'r cartref yn unol â Rhan 2 y Ddeddf honno, y perchennog ac nid y meddiannydd fydd yn atebol am dalu'r dreth gyngor. Pan nad oes neb wedi cofrestru felly, er y dylent fod wedi gwneud, y meddianwyr ac nid y perchennog fydd yn parhau i fod yn atebol am dalu'r dreth gyngor.